
**ADRAN A**

1 Faint yw 33% o £3?

a) 11c b) 99c c) £1 ch) £3.33 d) £11

2 Y rhif ym mhob bloc yw swm y ddau rif oddi tano.




Faint yw'r rhif A?

a) −9 b) −1 c) 0 ch) 1 d) 4

3 Mae Dylan yn rhannu bar o siocled rhwng ei ffrindiau. Mae'n rhoi un deuddegfed rhan (1/12) o'r bar siocled i bob ffrind gan adael traean o'r bar ar ôl. Faint o ffrindiau sydd gan Dylan?

a) 6 b) 8 c) 12 ch) 15 d) 18


4 Brasil yw lleoliad gemau pêl-droed Cwpan y Byd eleni. Y gêm gyntaf fydd Brasil yn erbyn Croatia ddydd Iau 12 Mehefin, yn Sao Paulo. Bydd y gic gyntaf am 17:00 amser Brasil, neu 9 p.m. amser ni. Gêm arall yn Sao Paulo fydd Yr Iseldiroedd yn erbyn Chile ddydd Llun 23 Mehefin. Bydd cic gyntaf y gêm honno am 1 p.m. amser Brasil. Am faint o'r gloch y bydd cic gyntaf y gêm yn y wlad hon?

a) 10:00 b) 3 p.m. c) 17:00 ch) 8 p.m. d) 21:00

5 Mae Jo yn ysgrifennu pedwar rhif mewn trefn, o'r lleiaf i'r mwyaf.
Modd y pedwar rhif yw 3. Canolrif y pedwar rhif yw 3. Amrediad y pedwar rhif yw 3. Beth yw cyfanswm mwyaf posibl y pedwar rhif?

a) 3 b) 9 c) 11 ch) 13 d) 15

6 Mae'r siâp hwn wedi ei greu o dri phetryal, pob un yn mesur 3 cm wrth 1 cm. Faint yw perimedr y siap?




a) 12 cm b) 16 cm c) 18 cm ch) 20 cm d) 24 cm

7 Gwerthais lyfr i'r siop lyfrau ail-law am £2 a'i brynu'n ôl o'r siop ymhen mis am £4. Ar ôl blwyddyn gwerthais yr un llyfr i'r siop eto am £3 ac, ymhen mis arall, prynais y llyfr yn ôl o'r siop am £5. Faint o elw wnaeth y siop i gyd?

a) £2 b) £3 c) £4 ch) £5 d) £6

8 Beth yw gwerth a + b + c + d + e + f mewn graddau?




a) 180 b) 360 c) 540 ch) 720
d) mae'n dibynnu ar faint y triongl

9 Gallaf ddal fy ngwynt dan ddŵr am 30 eiliad. Rwyf yn nofio ddwywaith yn gyflymach wrth nofio ar i fyny mewn dŵr nag wrth nofio ar i lawr drwyddo. Fy nghyflymder wrth nofio ar i lawr drwy'r dŵr yw 1.4 metr yr eiliad. Pa mor ddwfn y gallaf nofio mewn metrau?

a) 28 b) 60 c) 72 ch) 100 d) 120

10 Yn y swm dynnu hon mae *a*, *b* ac *c* yn ddigidau gydag *a* yn llai na *b*. Beth yw gwerth *c*?

$$\begin{array}{r} b\,a \\ \underline{-a\,b} \\ \underline{c\,6} \end{array}$$

a) 3 b) 4 c) 5 ch) 6 d) rhif mwy na 6

11 Mae *x* ffrwyth mewn basged. O'r rhain mae *z* yn afalau a'r gweddill yn orennau. Pa ffrasiwn o'r ffwythau sy'n orennau?


a) $\frac{x-z}{z}$ b) $\frac{z-x}{x}$ c) $\frac{x}{z-x}$ ch) $\frac{x+z}{z-x}$ d) $\frac{x-z}{x}$

*Ysgol*: ............................................................................ *Dosbarth*: .................................

*Enw*: .................................................................................................................................

**ADRAN B**

1 Mae angen pedwar bloc i greu grisiau dau gam i fyny a dau gam i lawr, fel hyn:




Defnyddiwch y grid sgwariau isod i'ch helpu i ateb y canlynol:

1 Beth yw'r nifer lleiaf o flociau sydd eu hangen i greu grisiau tri cham i fyny a thri cham i lawr? Ateb _____

2 Beth yw'r nifer lleiaf o flociau sydd eu hangen i greu grisiau pedwar cam i fyny a phedwar cam i lawr? Ateb _____

3 Beth yw'r nifer lleiaf o flociau sydd eu hangen i greu grisiau 13 cam i fyny ac 13 cam i lawr? Ateb _____

4 Beth yw'r nifer lleiaf o flociau sydd eu hangen i greu grisiau *n* cam i fyny ac *n* cam i lawr? Ateb _____



2 I roi 36c o newid mewn siop, rhaid defnyddio o leiaf bedwar darn arian (20c, 10c, 5c, 1c). Ar gyfer sawl un o'r symiau arian hyn y mae'n rhaid defnyddio o leiaf bedwar darn arian i'w ffurfio?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1c | | 21c | | 41c | |
| 2c | | 22c | | 42c | |
| 3c | | 23c | | 43c | |
| 4c | | 24c | | 44c | |
| 5c | | 25c | | 45c | |
| 6c | | 26c | | 46c | |
| 7c | | 27c | | 47c | |
| 8c | | 28c | | 48c | |
| 9c | | 29c | | 49c | |
| 10c | | 30c | | 50c | |
| 11c | | 31c | | | |
| 12c | | 32c | | | |
| 13c | | 33c | | | |
| 14c | | 34c | | | |
| 15c | | 35c | | | |
| 16c | | 36c | 20, 10, 5, 1 | | |
| 17c | | 37c | | | |
| 18c | | 38c | | | |
| 19c | | 39c | | | |
| 20c | | 40c | | | |

**Ateb:** Rhaid defnyddio o leiaf bedwar darn arian i ffurfio _____ gwerth arian rhwng 1c a 50c.